# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 13 Ionawr 2025

## SL(6)560 – Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch Ac Argyfwng (Ymgymerwyr Dŵr A Charthffosiaeth A Thrwyddedeion Cyflenwi Dŵr) (Diwygio A Dirymu) 2024

### Gweithdrefn: Dim Gweithdrefn

Mae'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas ag ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth Lloegr a thrwyddedeion cyflenwi dŵr Lloegr, ei bod yn angenrheidiol ac yn fuddiol, er budd diogelwch gwladol ac at ddiben lliniaru effeithiau unrhyw argyfwng sifil, i roi cyfarwyddyd iddynt, wrth arfer pwerau a roddir o dan adran 208(1) a (2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru, mewn perthynas ag ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth Cymru a thrwyddedeion cyflenwi dŵr Cymru, ei bod yn angenrheidiol ac yn fuddiol, er budd diogelwch gwladol ac at ddiben lliniaru effeithiau unrhyw argyfwng sifil, i roi cyfarwyddyd iddynt wrth arfer pwerau a roddir o dan adran 208(1) a (2) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ymgynghori â'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a benodwyd ganddo ef a thrwyddedeion cyflenwad dŵr Lloegr, ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a benodwyd ganddynt, a'r trwyddedeion cyflenwad dŵr yng Nghymru.

Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n cyfarwyddo'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a benodwyd ganddo a thrwyddedeion cyflenwad dŵr Lloegr, a Gweinidogion Cymru sy'n cyfarwyddo'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth a benodwyd ganddynt, a'r trwyddedeion cyflenwad dŵr yng Nghymru.

**Rhiant-Ddeddf:**

**Fe'u gwnaed ar:** 04 Rhagfyr 2024

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:**